**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL**
**14 MAI 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Llun, 14 Mai 2018.

**PRESENNOL: y Cynghorydd Dave Mackie (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Marion Bateman, Sean Bibby, Geoff Collett, Ian Dunbar, Mared Eastwood, Dennis Hutchinson, Tudor Jones, Brian Lloyd, Mike Reece, Paul Shotton, ac Andy Williams

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Ralph Small a David Wisinger

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet dros Reolaeth Gorfforaethol ac Asedau, Ian Roberts, Aelod Cabinet dros Addysg ac Ieuenctid, Prif Swyddog (Llywodraethu) Rheolwr Gwasanaethau Busnes TG, Rheolwr Datrysiadau Digidol a Rheolwr y Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chofrestru.
Ben Welsh – Rheolwr Cynorthwyol, Canolfan Hamdden Treffynnon a Magali Lovell-Pascal – Trysorydd, Canolfan Hamdden Treffynnon ar gyfer cofnod rhif 9.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd

## 1. PENODI CADEIRYDD

Dywedodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y cadarnhawyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir y dylai Cadeirydd y Pwyllgor ddod o Grŵp y Cynghreiriaid Annibynnol. Gan fod y Cynghorydd Dave Mackie wedi ei benodi i'r swydd gan y Grŵp, gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r penderfyniad.

**PENDERFYNWYD:**

Cadarnhau Dave Mackie fel Cadeirydd y Pwyllgor.

## 2. PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebodd y Cynghorydd Ian Dunbar y Cynghorydd Paul Shotton fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson.

Penodwyd y Cynghorydd Paul Shotton yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor trwy bleidlais.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Paul Shotton yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor.

## 3. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Bu i'r Cynghorydd Tudor Jones ddatgan cysylltiad personol ac sy'n rhagfarnu ar eitem rhif 9 'Trosglwyddo Ased Cymunedol Canolfan Hamdden Treffynnon' gan mai fo oedd Cadeirydd Ymddiriedolwyr y ganolfan hamdden a landlord y llyfrgell a'r caffi. Roedd o hefyd yn un o'r rhai a lofnododd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer defnyddio'r cyfleusterau chwaraeon yn Ysgol Treffynnon. Cafodd y Cynghorydd Jones wybod cyn y cyfarfod y câi gymryd rhan yn yr eitem fel cyfrannydd ac ateb unrhyw gwestiynau ond y byddai'n gadael yr ystafell ar gyfer y bleidlais.

## 4. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 19 Mawrth 2018.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'r Cadeirydd i'w llofnodi.

## 5. TROSOLWG CWSMERIAID DIGIDOL

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) bod y Cyngor wedi cytuno ar ddull strategol o ddatblygu'r Gwasanaethau Cwsmeriaid a gwella'r defnydd o Dechnoleg Ddigidol. Cyflwynodd yr adroddiad i egluro'r dull o weithredu'r strategaethau hyn, a oedd yn canolbwyntio ar roi'r gallu i gwsmeriaid gysylltu â'r Awdurdod a defnyddio ei wasanaethau, pan fo'n addas, trwy ddefnyddio technoleg ddigidol.

Rhoddodd y Prif Swyddog wybodaeth gefndirol a chyfeirio at y prif ystyriaethau yn yr adroddiad. Traddododd gyflwyniad a oedd yn trafod y prif bwyntiau canlynol:

- manteision ffocws 'cwsmer digidol'
- rhagolwg ar borthol y cwsmer
- datblygu'r porthol talu
- datblygu Sgwrs Fyw
- penderfyniadau allweddol – yn gynnar yn 2018
- dulliau torri costau
- adnoddau
- ein dull
- cynllun gweithredu cyntaf

Gofynnodd y Cynghorydd Marion Bateman a fyddi gan unrhyw bartïon eraill ddiddordeb mewn prynu'r feddalwedd a gynhyrchodd yr Awdurdod gyda chefnogaeth wrth gefn. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau TG fod y dechnoleg ddigidol i ddarparu gwasanaethau gan nifer o awdurdodau eisoes ac eglurodd fod y Cyngor yn buddsoddi ar hyn o bryd mewn datblygu diogelwch ar-lein.

Bu i'r Cynghorydd Paul Shotton sôn am yr angen am hyfforddiant ar ddefnyddio porthol y cwsmer a gofynnodd a fyddai modd gwahodd yr holl Aelodau, mewn grwpiau bychain i weld arddangosiad o sut y mae'r porthol yn

gweithio. Dywedodd ei bod yn bwysig ar gyfer pobl sydd o bosib heb fynediad at dechnoleg gwybodaeth gael mynediad dros y ffôn, a rhoddodd bobl hŷn fel enghraifft. Bu i'r Rheolwr Gwasanaethau Busnes TG gydnabod y pwynt a wnaeth ac eglurodd bod gwaith yn mynd rhagddo i roi gwybod i breswylwyr mewn cartrefi gofal am y gwasanaethau sydd ar gael.

Dywedodd y Cynghorydd Tudor Jones fod angen bod cysylltiad gwe 'da' ar gael ym mhob ardal a dywedodd bod diffyg darpariaeth mewn rhai ardaloedd gwledig. Cynigiodd amryw awgrymiadau y gellid eu cysylltu at y porthol cwsmeriaid a chyfeiriodd at wybodaeth ynghylch gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus fel enghraifft. Gofynnodd y Cynghorydd Jones hefyd a ellid rhoi dolen i gyfeirio cwsmeriaid at gynghorau tref neu gymuned lleol.

Eglurodd y Prif Swyddog fod gwella cysylltedd yn darged yn y Strategaeth Ddigidol ac yn ystyriaeth allweddol wrth hybu twf economaidd yn Sir y Fflint. Cyfeiriodd at gais Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i lywodraeth y DU am arian cyllid Ffibr Llawn yn Lleol o £200miliwn a fyddai'n elwa busnesau yn y rhanbarth yn bennaf ond byddai hefyd yn rhoi gwell mynediad i breswylwyr.

Bu i'r Cynghorydd Ian Dunbar sôn am yr angen i gynnig cyswllt wyneb yn wyneb i bobl a oedd am gael hyn a dywedodd am y gwasanaethau gwerthfawr y mae Canolfannau Cyswllt lleol yn eu cynnig. Yn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Dunbar ynghylch gwasanaethau talu ar-lein, dywedodd y Prif Swyddog mai'r bwriad oedd cynyddu ystod y gwasanaethau y gall preswylwyr dalu amdanynt ar-lein. Siaradodd am y manteision a'r arbedion cost y gellid eu gwneud trwy daliadau uniongyrchol.

Mynegodd y Cynghorydd Brian Lloyd bryderon y gallai'r porthol cwsmer digidol arwain at gau'r Canolfannau Cyswllt. Rhoddodd y Prif Swyddog sicrwydd nad oedd yn fwriad i'r porthol ddisodli'r gwasanaethau a roddir gan y Canolfannau Cyswllt ac nad oedd unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i'w cau. Yn ymateb i gwestiwn arall gan y Cynghorydd Lloyd ynghylch y gwasanaeth 'Sgwrs Fyw', eglurodd y Prif Swyddog fod y gweithredwyr sy'n ateb ymholiadau trwy'r 'Sgwrs Fyw' hefyd yn ateb ymholiadau dros y ffôn. Eglurodd mai diben y 'Sgwrs Fyw' oedd helpu pobl i ddefnyddio'r porthol.

Yn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd, eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Busnes TG fod diogelwch yn fater blaenorol ac y byddai modd i bobl fynd at eu gwybodaeth cyfrif eu hunain trwy ddolen ddiogel.

**PENDERFYNWYD**:

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r dull gweithredu'r Strategaeth Ddigidol a'r Strategaeth Cwsmer trwy osod blaenoriaeth a ffocws ar wella gwasanaethau ar gyfer 'Cwsmeriaid Digidol' fel y disgrifir yn yr adroddiad; a

(b) Nodi'r sylwadau ynghylch sut y gellid sicrhau'r defnydd mwyaf o'r Cyfrif Cwsmer.

## 6. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYNGOR 2017/18 Y CYNGOR AR DDIWEDD Y FLWYDDYN

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) Adroddiad Monitro Cynllun Diwedd y Flwyddyn y Cyngor 2017/18. Eglurodd fod yr adroddiad yn cyflwyno'r broses o fonitro cynnydd blaenoriaeth 'Cyngor Cysylltiedig' Cynllun y Cyngor a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor.

Rhoddodd y Prif Swyddog wybodaeth gefndirol a dywedodd fod yr adroddiad monitro ar gyfer Cynllun y Cyngor 2017/18 yn un cadarnhaol, roedd 81% o'r gweithgareddau a aseswyd yn gwneud cynnydd da, a 69% yn debygol o gael y canlyniad dymunol. Roedd dangosyddion perfformiad yn dangos cynnydd da, roedd 84% yn bodloni neu bron â bodloni'r targed cyfnod. Câi risgiau eu rheoli'n llwyddiannus hefyd ac aseswyd y rhan fwyaf fel cymedrol (67%) neu fychan (10%).

Dywedodd y Prif Swyddog fod y dangosydd perfformiad canlynol wedi dangos statws coch ar gyfer ei berfformiad ar hyn o bryd yng nghyd-destun y targed gan y Pwyllgor:

Blaenoriaeth: Cyngor Cysylltiedig
Dangosydd: Canran y cymalau buddion cymunedol mewn contractau caffael newydd dan £1M

Dywedodd y Prif Swyddog na chanfuwyd unrhyw risg mawr a bod y cynnydd yng nghyd-destun y risgiau yn atodiad yr adroddiad hwn.

Wrth gyfeirio at y dangosydd uchod, gofynnodd y Cynghorydd Ian Dunbar am ragor o wybodaeth am y buddion cymunedol a ddeuai o'r 5 project a gaffaelwyd. Cytunodd y Prif Swyddog y byddai'n cyflwyno'r manylion i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 7. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Rhaglen Waith bresennol i'w hystyried. Cyfeiriodd at yr eitemau a oedd ar agenda'r cyfarfod nesaf, ar 25 Mehefin a gofynnodd i Aelodau anfon unrhyw awgrymiadau ar gyfer eitemau ati yr hoffent eu hychwanegu at y Rhaglen ar gyfer y flwyddyn a ddaw. Awgrymwyd ychwanegu adroddiadau diweddaru rheolaidd ar y Trosglwyddo Asedau Cymunedol, y Strategaeth Ddigidol a'r Strategaeth Cwsmeriaid at y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a gyflwynwyd; ac

(b) Awdurdodi’r Hwylusydd, trwy ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio’r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol rhwng cyfarfodydd petai angen gwneud hyn.

**8. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a’r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth a eithrir dan baragraff(au) 14 Rhan 4 Atodiad 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd).

**9. TROSGLWYDDO ASED CYMUNEDOL CANOLFAN HAMDDEN TREFFYNNON**

Cyflwynodd y Cynghorydd Tudor Jones, Cadeirydd Canolfan Hamdden Treffynnon, gyflwyniad yn trafod adolygiad ar y cynnydd a wnaed yn 2017/18 a’r cynlluniau ar gyfer 2018. Rhoddodd wybodaeth gefndirol a gwahodd Ben Welsh – Rheolwr Cynorthwyol Canolfan Hamdden Treffynnon, a Magali Lovell-Pascal – Trysorydd Canolfan Hamdden Treffynnon, i adrodd ar y pwyntiau allweddol canlynol:

- Creu busnes cynaliadwy
- Adroddiad ariannol: y sefyllfa sydd ohoni
- Blwyddyn ariannol 2018-19 a thu hwnt
- Cyfryngau Cymdeithasol / Marchnata
- Incwm

Bu i Aelodau longyfarch y Rheolwyr, Ymddiriedolwyr a’r cyflogeion am eu gwaith caled a blwyddyn gyntaf werth chweil o weithredu fel Sefydliad Elusennol. Yn dilyn awgrym gan y Cadeirydd, cytunwyd anfon llythyr i Ganolfan Hamdden Treffynnon i fynegi gwerthfawrogiad y Pwyllgor.

Gofynnodd Aelodau gwestiynau ynghylch ceisio denu cyfraniad ariannol gan gynghorau tref a chymuned lleol at gostau rhedeg y Ganolfan Hamdden. Gofynnwyd cwestiynau eraill ynghylch y cyfleoedd i gynyddu incwm o ffynonellau allanol a mesurau ynni effeithiol.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Cynghorydd Tudor Jones, Ben Welsh a Magali Lovell-Pascal am eu cyflwyniad ac am ateb cwestiynau Aelodau.

**PENDERFYNWYD:**

Y byddai’r Pwyllgor yn llongyfarch y Rheolwyr, Ymddiriedolwyr a Chyflogeion ar eu gwaith caled a blwyddyn gyntaf werth chweil o weithredu fel Sefydliad Elusennol, a dymuno’n dda at y dyfodol.

**10. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Nid oedd aelodau’r wasg na’r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.33 pm)

..................................................

**Cadeirydd**